

## PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 22 MAWRTH 2017

Yn Aelodau Annibynnol: Richard Tebboth (Cadeirydd)  
bresenol:

Y Cynghorwyr: Cowan, Phillips, Hollie Edwards-Davies,  
James Downe a/ac Hugh Thomas

Cynghorydd Cymuned John Hughes

### 23 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

Nodwyd bod un lle gwag ar gyfer Cynghorydd ar y Pwyllgor ar ôl i'r Cynghorydd Margaret Jones ddiswyddo.

Roedd y Cadeirydd am gofnodi diolchiadau'r Pwyllgor am gyfraniadau pwysig y Cynghorydd Jones ac am ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Ceisiodd y Cynghorydd Cymunedol John Hughes gadarnhad mai dyma ei flwyddyn olaf fel cynrychiolydd ar y Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai cyfnod y Cynghorydd Cymunedol Hughes yn ei swydd yn dod i ben ar ôl etholiadau mis Mai ac ni ellir gael ei estyn. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at Gyngorau Cymunedol ar ddiwedd y weinyddiaeth gyfredol yn ceisio enwebiadau.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a allai Clerc sefyll ar y Pwyllgor Safonau a Moeseg a dywedyd wrthi na chaniateir hyn dan y Rheoliadau.

Diolchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Cymunedol John Hughes am ei gyfraniad at y Pwyllgor gan ychwanegu ei bod wedi bod yn llais effeithiol, agored sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir ar gyfer y Cyngorau Cymunedol.

### 24 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

### 25 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Nododd aelodau'r Pwyllgor, mewn perthynas â Siartr y Cyngor Cymuned, fod y cofnodion wedi dweud y byddai'r Swyddog Monitro ystyried y mater hwn ymhellach gyda chydweithwyr cynllunio a cheisio dod o hyd i ateb i'r materion parhaol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ddiweddariad yn dweud nad yw hi wedi gallu mynd â hyn ymlaen hyn yn hyn. Mae trafodaethau pellach wedi bod gyda Chyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas.

Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor a hoffent i Siartr y Cyngor Cymuned gael ei drafod eto mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol, gan nodi nad mater Safonau a Moeseg oedd

rhwymedigaethau cynllunio dan A106 ac nad oedd modd gwneud dim mwy ar y rhan hon o'r Siartr.

Awgrymodd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned nad oedd y mater yn ymwneud ag A106 yn berthnasol yng ngweddill Cymru; a bod Caerdydd yn wahanol ac yn unigryw gyda llawer o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu. Ar ddiwedd y drafodaeth gyda Chyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, daethpwyd i'r casgliad fod trafodaethau A106 yn rhan o broses gynllunio statudol lle yr ymgynghorwyd â Chynghorau Cymuned a lle y maent yn mynegi eu barn. Os oes angen ymgynghori'n fwy yna mae gan yr Awdurdod Lleol broses ar gyfer ymgynghori gyda Chynghorwyr Ward y mae rhai ohonynt yn sefyll ar Gynghorau Cymuned a gellir cyflwyno barn yn y ffordd honno.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol y dylai Cynghorau Cymuned siarad yn uniongyrchol â'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio neu Gadeirydd Cynllunio'r Weinyddiaeth newydd i geisio datrys eu pryderon.

## 26 : PANEL DYFARNU CYMRU – HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD

Rhoddodd yr adroddiad hwn wybod o Aelodau'r Pwyllgor am benderfyniad diweddar Panel Dyfarnu Cymru (PDC) o ran cwyn ffurfiol i Ombwdsman Cymru yn erbyn y Cynghorydd McEvoy. Cynhaliwyd y gwrandawriad dros ddau ddiwrnod. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i roi gwybod i Aelodau am yr Hysbysiad o Benderfyniad a'r sansiwn wedi'i osod.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon am hyd yr amser y mae'n ei gymryd i benderfynu ar y mater hwn (oedd yn ymwneud â digwyddiad ym mis Gorffennaf 2015); a nododd fod y Swyddog Monitro wedi gwneud y pwynt hwn i swyddfa'r Ombwdsman.

Nodwyd bod erthygl gwasg wedi nodi bod bwriad gan y Cynghorydd dan sylw herio'r penderfyniad, ac y dylai'r Pwyllgor fod yn ofalus i beidio â sylwi'n gyhoeddus mewn ffordd a allai wneud niwed i unrhyw apêl.

Holodd Aelod pam bod yr Hysbysiad o Benderfyniad blaenorol yn ymwneud â'r Cynghorydd McEvoy wedi'i ddileu o'r Wefan a dywedwyd wrtho fod y Cyngor wedi dilyn amserlenni sy'n berthnasol i benderfyniadau'r Ombwdsman ac wedi cyhoeddi'r hysbysiad am 21 diwrnod. Cytunodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith i ymchwilio i'r amserlenni.

PENDERYNWDYD – nodi canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r achos hwn.

## 27 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 3, 2016/17

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai er gwybodaeth yn unig oedd yr adroddiad hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd unrhyw newidiadau go iawn wedi bod; mae ychydig fwy o gwynion wedi'u derbyn yn ddiweddar ond disgwyliwyd hyn o ganlyniad i'r cyfnod etholiadau.

PENDERFYNWDYD - Y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 28 : PROTOCOL DATRYS LLEOL

Rhodddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r adroddiad a nodwyd i'r Ombwdsman wneud sylwadau yn cynghori Cynghorau i sefydlu gweithdrefnau datrys lleol i leihau nifer y cwynion y'u cyfeirir at yr Ombwdsman o ran materion ymddygiadol 'lefel isel' rhwng Aelodau, sy'n codi fel arfer yn yr hyn y gellir ei ystyried yn 'drychu a gwanu' dadleuon a gwleidyddiaeth leol arferol y Cyngor.

Yng nghanllawiau diweddaraf yr Ombwdsman ar God Ymddygiad Aelodau, mae'r Ombwdsman yn dweud "Yn fy marn i mae cwynion o'r fath yn cael eu datrys yn fwy priodol mewn modd anffurfiol a lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno ac i sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu defnyddio i ymchwilio i gwynion difrifol. Bwriad datrys lleol yw datrys materion ar gam cynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu a allai niweidio perthnasau personol yn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod."

Ym mis Mai 2013, mabwysiadwyd Cyngor Caerdydd Brotool Datrys Lleol, yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Safonau a Moeseg, i ddelio gyda chwynion cymharol lefel isel gan aelodau am aelodau.

Mae angen adolygu'r Protocol Datrys Lleol a fabwysiadwyd ym mis Mai 2013 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac addas at y diben.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor ystyried a ddylid estyn y Protocol i gynnwys cwynion lefel isel gan swyddogion am ymddygiad Aelod. Yn gyffredinol delir â chwynion o'r fath yn anffurfiol gan y Swyddog Monitro. Fodd bynnag, byddai estyn y Protocol Datrys Lleol i swyddogion yn golygu y bydd gweithdrefnau Panel Gwrandawiadau ar gael pan fo angen, a hefyd yn helpu i atal y sefyllfa rhag gwaethygu pan nad oes angen a niwed i berthnasau personol yn y Cyngor ac enw da'r Cyngor. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod rhai o awdurdodau eraill yn estyn eu proses datrys lleol i swyddogion yn barod.

Yn rhan o'r Protocol Datrys Lleol, mae angen i'r Swyddog Monitro gyfarfod â'r achwynydd a'r cwynwr ynghyd, dywedodd y Cyfarwyddwr na fyddai hyn yn briodol mewn rhai achosion o bosibl, ac y dylent gyfarfod ar wahân. Byddai diwygiadau bach yn rhoi mwy o ddisgresiwn i'r Swyddog Monitro.

Yn ystod y drafodaeth, ystyriodd y Pwyllgor fod y newidiadau hyn yn hir-ddisgwyliedig a dywedwyd wrtho y byddai angen i unrhyw newidiadau gael eu cytuno gan y Cyngor Llawn yna'u cyflwyno i Swyddogion. Roedd y Pwyllgor yn fodlon cytuno i estyn y Protocol i swyddogion, ar yr amod y ymgynghorir â'r Uwch Dîm Rheoli a'i fod yn gyfforddus ag ef.

Awgrymodd y Swyddog Monitro hefyd y gellir gwneud y Protocol ar gael i ddelio â chwynion lefel isel gan y cyhoedd, os yw pawb yn cytuno, ac ar y sail y byddai hawl gan yr unigolyn bob amser i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsman os yw'n dymuno.

### PENDERFYNWYD –

1. cytuno'r diwygiadau wedi'u hargymell i'r Protocol Datrys Lleol a ddangosir yn Atodiad A yr adroddiad, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor llawn;

2. yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, gwneud y Protocol ar gael i ddelio â:
  - chwynion lefel isel gan swyddogion neu'r cyhoedd am ymddygiad Aelod; a
  - cwynion lefel isel gan Aelod am Aelod sy'n cynnwys Cyngorwyr Cymuned;

Argymhell y diwygiadau arfaethedig i'r Protocol Datrys Lleol i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo (gydag awdurdod wedi dirprwyo i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i'r Protocol yn ôl yr angen).

## 29 : DIWEDDARIAD AR CHWYTHU'R CHWIBAN

Gofynnwyd y Cadeirydd a ystyrir bod y Polisi'n gweithio'n effeithiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ei fod yn, ond bod rhai pryderon bod staff yn defnyddio'r polisi tra eu bod eisoes yn dadlau gyda rheolwyr.

Nododd Aelodau fod gweithdy wedi bod ar Chwythu'r Chwiban ar y gynhadledd Safonau a Moeseg y llynedd y cafodd adroddiad ei lunio a'i gyhoeddi ar ei hôl. Nododd Dr Downe y creodd sut y cafodd y polisi ei gyfathrebu, pan gafodd ie ail-lansio, argraff arno. Roedd nifer yr adroddiadau wedi cynyddu ar y dechrau o ganlyniad i bolisi newydd, ond mae'r niferoedd wedi gostwng eto, felly gallai fod yn gyfle i edrych ar sut i wella'r ffordd y cyfathrebu y Polisi ymhellach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol y cynlluniwyd briffiau uwch dîm rheoli a rheolwyr ac roedd taflen wybodaeth yn cael ei llunio.

PENDERFYNWYD – nodi'r wybodaeth a roddwyd.

## 30 : AROLWG AELODAU SY'N GADAEL 2017

Gofynnodd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Arolwg Aelodau sy'n Gadael a wnaed ym mis Chwefror 2017 sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor a cytuno ar gynllun gweithredu.

Atgoffwyd y Pwyllgor yr oedd yr Arolwg Aelodau sy'n Gadael ar gael yn electronig ac mewn copi caled o 15 tan 24 Chwefror 2017, a rhoddwyd cyfle i'r bobl hynny oedd angen cymorth i gwblhau'r arolwg gyda chymorth un o dimau'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau.

Roedd yr Arolwg Gadael ar agor i bob Aelod sydd wedi bod yn Gyngorydd ers Mai 2012. Derbyniwyd 46 ymateb erbyn y dyddiad cau.

Rhoddodd Atodiad A i'r adroddiad y data trosolwg ar gyfer cwestiynau generig 1 – 4 a rhoddodd fanylion ar yr ymatebion i Gwestiynau 14 – 21 sy'n ymwneud yn benodol â chylch gorchwyl y Pwyllgor. Darparwyd y data testun rhydd mewn themâu er mwyn cadw ymatebion yn ddi-enw. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried camau gweithredu posibl sy'n codi o'r data.

Roedd y Cadeirydd wedi bod yn awyddus i weld cwestiynau digonol mewn perthynas â bwlio ac ymddygiad gwahaniaethol gan fod y rheiny'n faterion gaiff eu dwyn gerbron y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn gyffredinol; ac roedd yn falch gweld bod nifer da o

ymatebion wedi'u derbyn i'r cwestiynau hynny. Hefyd roedd y Cadeirydd wedi cynnig cyfarfod ag unrhyw Aelod oedd am siarad am fwlio neu ymddygiad gwahaniaethol, ond wedi cael 1 ymateb yn unig hyd yn hyn.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi awgrymu wneud yr arolwg eto ar ddiwedd y flwyddyn galendr i gasglu canfyddiadau Cynghorau newydd eu hethol a nodi unrhyw newidiadau; ac y byddai'r Pwyllgor Safonau a Moeseg hefyd yn cael y cyfle i adolygu hyn.

Ystyriodd y Pwyllgor y dangosodd yr ymatebion i gwestiynau 14-16 broblem resymol gyda thraean o ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi profi bwlio. Roedd y Pwyllgor yn falch nodi bod y gwasanaeth cwnsela cyfrinachol a gynigir i gyflogeion wedi'i estyn i Aelodau Etholedig; byddai hyn yn cael ei gyfathrebu'n glir yn rhan o'r Rhaglen Sefydlu.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y materion hyn wedi'u trafod gydag arweinwyr grŵp a chwipiau, yn ailadrodd cyfrifoldebau grwpiau yn hyn o beth. Roedd trafodaethau wedi bod yn adeiladol ac ystyriodd y Swyddog Monitro fod y sefyllfa wedi gwella.

Trafododd y Pwyllgor gosbau a sancsiynau ac ystyriwyd bod angen esbonio'r rhain yn llawn yn rhan o'r broses sefydlu; roedd angen i Aelodau fod yn ymwybodol o'r wasg a pheidio â thrafod gwybodaeth bersonol unigol neu sensitif mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Nododd y Cadeirydd nad cyflogeion yw Aelodau, maent yn ateb i'r etholwyr ac mae ganddynt cod ymddygiad i'w ddilyn ond nid ydynt yn cael eu hamddiffyn yn yr un modd â chyflogeion; gan ei gwneud yn hanfodol delio ag ymddygiad annerbyniol pan ddaw i'r amlwg mewn modd ffurfiol a phrydlon.

O ran cynnwys mwy o Aelodau mainc ôl yn y broses benderfynu, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor sut gellid gwneud hyn o fewn strwythur y Cyngor. Dywedodd swyddogion fod cyfleoedd ar gael, megis y lleoedd gwag ar Bwyllgorau craffu a rheoliadol. Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Y Cyfansoddiad fod Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Craffu yn cael ei agor i bob Aelod.

I grynhoi, trafododd y Pwyllgor y pethau eraill y gallai'r Pwyllgor Safonau a Moeseg eu gwneud pan dderbyniant honiadau o fwlio a chodi proffil y Pwyllgor. Nodwyd y gwahoddir Arweinwyr Grŵp yn gyson i'r Pwyllgor, bod Briffiau Aelodau ac Adroddiadau Blynyddol rheolaidd yn cael eu llunio, bod Aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Llawn a chwblhau ffurflen adborth a bod unrhyw ddigwyddiadau a dystir mewn cyfarfodydd yn cael eu dilyn i fyny. Ailadroddodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor barhau i fod yn ragweithiol tra'n cadw'i annibyniaeth a'i bellter.

#### PENDERFYNWYD:

- i. mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ail-gyflwyno'r Arolwg Aelodau tua diwedd y flwyddyn galendr;

Croesawyd estyn y gwasanaeth Cwnsela cyfrinachol i Aelodau Etholedig.

Derbyniodd y Pwyllgor Raglen Sefydlu Aelodau 2017. Roedd y rhaglen wedi'i chynllunio i sicrhau y cwblhawyd sesiynau Hyfforddiant Hanfodol yn gynnar yn y weinyddiaeth newydd a bod y sesiynau yn seiliedig ar wasanaeth yn dilyn. Byddai'r diwrnod sefydlu yn cynnwys croeso gan y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg a 'Neuadd Farchnad' gyda gwybodaeth Gwasanaeth; y Gymraeg; Academi Cymru Gyfan, TGCH a Chraffu.

Byddai Aelodau'n cael pecynnau dechreuwyr a byddai Llawlyfr i Aelodau a TG Aelodau yn cael eu cynnig ar y diwrnod sefydlu gyda phroses well i ymgartrefu aelodau newydd eu hethol cyn gynted â phosibl.

Ystyriodd aelodau'r Pwyllgor ei bod yn briodol bod Cadeirydd Safonau a Moeseg yn rhoi cyflwyniad i Aelodau newydd yn dilyn anerchiad y Prif Weithredwr yn y sesiynau sefydlu. Ceisiodd a derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor sicrwydd gan y Swyddog Monitro y byddai atgyfeiriadau clir a fwlio ac ymddygiad gwahaniaethol yn y sesiynau hyfforddiant ar God Ymddygiad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod adroddiad yn mynd i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth, o'r Pwyllgor Y Cyfansoddiad, ar newid pwysig i Ymrwymiad Caerdydd, i gynnwys y gofyniad ar gyfer yr holl Aelodau i fynychu sesiynau Hyfforddiant Hanfodol. Byddai ffurflenni Derbyn Swydd yn cael eu llofnodi gyda'r Swyddog Monitro ar y dydd Llun ar ôl yr etholiad, byddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei gyfeirio yna hefyd.

Gan gyfeirio at Baneli Gwrandawriad Safonau a Moeseg, awgrymwyd bod angen hyfforddiant ar gyfer Aelodau newydd ac y gellir darparu hyfforddiant gloywi cyn unrhyw ddyddiadau panel gwrandawriad.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r Rhaglen Sefydlu Aelodau ar gyfer Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd o fis Mai 2017 ymlaen.

## 32 : ARSYLWADAU O GYFARFODYDD Y CYNGOR A PHWYLLGORAU

Rhoddodd y Cynghorydd Cymuned John Hughes ei arsylwadau ar ôl mynd i safle cynllunio.

Dywedwyd wrth Aelodau eu bod yn gallu mynychu rhan o gyfarfodydd y Cyngor Llawn pe na allent fynychu'r cyfarfod cyfan; ystyriwyd ei bod yn bwysig i aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg fod yn bresennol.

Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor eu harsylwadau o gyfarfod y Cyngor llawn, gan nodi bod hyd y cyfarfodydd yn hir iawn gan ei gwneud yn anodd i Aelodau barhau i ganolbwyntio trwy'r holl gyfarfod - yn enwedig Aelodau a allai fod â chyflyrau iechyd penodol. Roedd pryderon hefyd fod pleidiau gwleidyddol yn mynd i ystafelloedd grwpiau ar wahân yn ystod yr egwyl.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai Aelodau newydd yn cael eu harolygu cyn pennu dyddiadau ac amseroedd cyfarfod.

Trafododd Aelodau amserlen gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg gan gydnabod ei bod yn bosibl na fydd cyfle i gynnal cyfarfod tan Medi 2017 yng ngolwg yr etholiadau lleol. Byddai'r adroddiad Blynnyddol yn cael ei ddrafftio a'i gylchredeg i'r holl Aelodau fel y gellid

ei gwblhau yn y cyfarfod ym mis Medi. Cadarnhaodd Aelodau mai ar ddydd Mercher y mae'n well ganddynt gynnal cyfarfodydd.

Diolchodd y Cadeirydd yr Aelodau Etholedig am eu cyfraniad at y Pwyllgor Safonau a Moeseg dros y flwyddyn Ariannol ddiwethaf ac am ddymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified